Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

# Cyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol Addysg Bellach – Elfen 3 (Atodol)

**Fersiwn 1**

**Cyhoeddwyd ym mis Mehefin 2025**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English
**www.medr.cymru**

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

## Cynnwys


Diben y cyllid ..... 2
Ceisiadau am gyllid ..... 2
Cymhwystra dysgwyr ..... 3
Gweithgaredd cymwys ..... 3
Cymorth dynol ..... 5
Prynu offer/meddalwedd arbenigol ..... 6
Gofynion o ran tystiolaeth ..... 7
Ceisiadau am Gyllid a Thaliadau ..... 7
Manylion cyswllt ..... 8
Atodiadau ..... 9
A. Ffurfflen Gais ..... 10
B. Ffurflen Gwirio Dysgwr Tymor yr Hydref ..... 13
C. Ffurflen Gwirio Dysgwr Tymor y Gwanwyn ..... 14
D. Ffurflen Gwirio Dysgwyr Tymor yr Haf a Thystysgrif o Wariant ..... 15
E. Hysbysiad Bod Dysgwr Wedi Tynnu'n Ôl ..... 16

## Diben y cyllid

1. Mae Medr yn ymrwymedig i ddiwallu anghenion addysgol pobl ifanc yng Nghymru gan eu galluogi i gyrraedd eu llawn botensial. Trwy roi'r cymorth iawn ar waith, gellir dileu rhwystrau sylweddol i gyflawni potensial unigol.

2. Gall Medr ystyried talu Elfen 3 (a elwir weithiau'n gyllid atodol) ar gyfer dysgwyr ag anghenion uchel o Gymru sy'n astudio mewn sefydliadau addysg bellach (SABau) yn Lloegr. Bydd cyllid Elfen 1 a 2 yn cael ei ariannu yn y ffordd arferol gan yr Adran Addysg.

3. Dylai Cyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol – Elfen 3 (Atodol) gael ei ddefnyddio gan sefydliadau i ymateb i anghenion dysgwyr unigol ac ni ddylai fod yn benderfynydd ar gyfer derbyn dysgwr neu beidio.

4. Mae'r canllawiau hyn yn darparu gwybodaeth i SABau yn Lloegr ynghylch meini prawf a gweithdrefnau Medr mewn perthynas â chyllid Elfen 3 i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

5. Ni ddisgwylir i SABau recriwtio dysgwyr o'r tu allan i'w hardal recriwtio arferol a dylent nodi y gall Medr benderfynu peidio â gwneud taliadau Elfen 3 ar gyfer dysgwr o Gymru mewn sefydliad yn Lloegr lle mae darpariaeth amgen ar gael yn nes at gartref y dysgwr.

6. O dan y trefniadau cyllid ar gyfer anghenion uchel, disgwylir i SABau gyfrannu'r £6,000 cyntaf o gostau cymorth ychwanegol ar gyfer dysgwyr anghenion uchel (Elfen 2). Mae'r cymorth ychwanegol hwn yn ddarpariaeth y tu hwnt i'r arlwy dysgu ac addysgu safonol (Elfen 1) ar gyfer yr holl ddysgwyr mewn lleoliad AB prif ffrwd. Bydd angen i gyllid Elfen 3 uwchlaw'r lefel hon gael ei gytuno gan Medr a'r sefydliad.

7. Yn unol â gweithdrefnau Medr ar gyfer cyllido dysgwyr mewn SABau yng Nghymru, mae cyllid Elfen 3 wedi'i fwriadu ar gyfer cymorth addysgol yn unig. Bydd disgwyl i sefydliadau fynd at asiantaethau megis Adran Gwasanaethau Cymdeithasol y dysgwr neu'r Bwrdd Iechyd perthnasol i adnabod a chytuno ar gyllid ar y cyd ar gyfer darpariaeth anaddysgol megis cymorth meddygol neu gryn dipyn o ofal personol.

8. Dyfernir Cyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol – Elfen 3 (Atodol) ar sail dysgwr unigol. Felly, nid yw'n drosglwyddadwy i ddysgwyr eraill.

## Ceisiadau am gyllid

9. Dylai sefydliadau ddefnyddio'r ffurflen gais yn **Atodiad A** i nodi manylion costau cymorth unigol ar gyfer yr holl ddysgwyr o Gymru y mae angen cyllid Elfen 3 arnynt.

10. Os nad yw'r costau a adnabuwyd yn ysgwyddo cyllid Elfen 3 a'u bod yn cael eu cyllido'n llwyr o'r dyraniadau Elfen 1 a 2, nid oes angen i sefydliadau gwblhau'r ffurflen hon. Fodd bynnag, dylai sefydliadau sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw yn unol â gofynion archwilio cyllid a nodir gan yr Adran Addysg neu'r awdurdod lleol.

11. Dim ond ar gyfer dysgwyr lle ceir dogfennaeth ategol glir y dylid gwneud ceisiadau am gyllid. Byddai hyn fel arfer yn cynnwys Cynllun Datblygu Unigol (CDU). Nid oes angen cyflwyno'r dystiolaeth hon i Medr. Fodd bynnag, fel un o amodau'r cyllid, rhaid i'r holl dystiolaeth sy'n dangos yr angen am gyllid Elfen 3 gael ei chadw gan y sefydliad. Ceir rhagor o wybodaeth am y gofynion o ran tystiolaeth ym mharagraffau 39 – 43 isod.

## Cymhwystra dysgwyr

12. Dim ond i gefnogi dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) fel y'u diffinnir dan God Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021[1] (Y Cod) y dyllid defnyddio cyllid CDY.

13. Ni ddylid ystyried bod gan ddysgwr ADY dim ond am bod yr iaith y maent yn cael eu haddysgu ynddi'n wahanol i iaith sydd wedi bod yn cael ei siarad yn eu cartref ar unrhyw adeg.

14. Gellir defnyddio cyllid CDY ar gyfer yr holl ddysgwyr ag ADY, ni waeth pa un a ydynt ar raglenni dysgu ar wahân ynteu rhaglenni dysgu prif ffrwd na pha un a ydynt yn astudio ar sail amser llawn ynteu'n rhan amser.

15. Rhaid i'r holl ddysgwyr sy'n hawlio Cyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol – Elfen 3 (Atodol), sydd â hawl statudol i gael CDU, fod ag un oni bai bod y dysgwr wedi gwrthod CDU a gynigiwyd. Rhaid dogfennu'r penderfyniad hwn.

16. Bydd cyllid parhaus yn amodol ar gynnydd a dylid trefnu bod adroddiad adolygu blynyddol y dysgwr ar gael i Medr at ddibenion Archwilio os gofynnir. Bydd ffurflen gais yn ofynnol ar gyfer pob blwyddyn o ddysgu.

17. Barn Medr yw bod cyllid Elfen 3 ar gael ar gyfer rhaglen astudio sy'n para am hyd at ddwy flynedd gyda chyllid ar gyfer yr ail flwyddyn yn amodol ar wneud cynnydd. Mewn rhai achosion, gall fod angen trydedd flwyddyn ar ddysgwr i gwblhau eu rhaglen astudio. Rhaid i sefydliadau gyflwyno achos busnes ochr yn ochr â'r ffurflen gais ar gyfer dysgwyr sy'n gofyn am drydedd flwyddyn o gyllid.

18. Nid yw Medr yn disgwyl cael ceisiadau am gyllid ar gyfer dysgwyr a gyllidwyd mewn sefydliad AB preswyl arbenigol yn flaenorol.

19. Dim ond ceisiadau gan ddysgwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru y bydd Medr yn eu hystyried.

## Gweithgaredd cymwys

20. Gellir defnyddio'r cyllid ar gyfer Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY). Diffinnir hyn fel darpariaeth addysg neu hyfforddiant sy'n ychwanegol at, neu'n wahanol i, ddarpariaeth y trefnir ei bod ar gael fel arfer i ddysgwyr eraill yn y sefydliad (fel a ddiffinnir ym Mhennod 2 y Cod).

---

[1] Y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol

21. Gellir defnyddio cyllid CDY i roi cymorth yn y categorïau eang a amlinellir yn y tabl ym mharagraff 25 a pharagraffau 26 i 32 isod. Gall y cymorth hwn ddigwydd y tu mewn neu'r tu allan i'r ystafell ddosbarth neu'r gweithdy.

22. Dylai sefydliadau nodi nad yw'r categorïau hyn yn gynhwysfawr ond eu bod wedi'u bwriadu i ddynodi'r amrywiaeth eang o gymorth sydd o fewn cwmpas cyllid CDY. Lle nad yw math neu gategori penodol o gymorth wedi'i gynnwys yn y tabl ym mharagraff 25 a pharagraffau 26 i 32 isod, cysylltwch â Medr i gael eglurhad.

23. Mae Cyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol – Elfen 3 (Atodol) wedi'i fwriadu i gyfrannu at gostau staff a gyflogir i ddiwallu anghenion cymorth dysgwyr cymwys. Ni ellir defnyddio'r Cyllid i ategu cyflogau staff addysgu craidd.

24. Dylai'r holl gymorth a roddir â chyllid CDY alluogi dysgwr ymhellach i gynyddu hunan-effeithiolrwydd a hunan-eiriolaeth i'r eithaf.

## Cymorth dynol

25. Mae cyllid ar gyfer cymorth dynol yn ymwneud ag amser cyswllt uniongyrchol gyda'r dysgwr yn unig.

| Math o ddarpariaeth | Disgrifiad o'r ddarpariaeth |
|---|---|
| **Tiwtor/ymgynghorydd arbennig** | Megis tiwtor cymorth Anhawster Dysgu Penodol arbenigol neu gymorth ymddygiadol. |
| **Hyfforddiant Technoleg Gynorthwyol Arbenigol** gan diwtor neu ymgynghorydd TG (gan gynnwys technegydd). | Dylai hyn fod yn ychwanegol at y cymorth tiwtoraidd a roddir dan elfen graidd rhaglen amser llawn. Atgoffir sefydliadau y dylid defnyddio cyllid CDY i brynu adnoddau ychwanegol ac nid i dalu cost staff addysgu amser llawn craidd. |
| **Gweithiwr cymorth cyfathrebu** | Gall hyn gynnwys arwyddwyr a dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain (BSL) neu weithwyr cymorth cyfathrebu ar gyfer dysgwyr ag anawsterau eraill sy'n gysylltiedig â chyfathrebu. Mae Action on Hearing Loss yn argymell mai BSL Lefel 3 ddylai fod y safon ofynnol ar gyfer cymorth cyfathrebu. |
| **Cynorthwyydd Cymorth** | Megis cymorth unigol neu a rennir gan gynorthwyydd cymorth dysgu, cymorth gofal personol, cymorth at ac oddi wrth gludiant, cymorth gan gynorthwyydd cymorth hyfforddedig Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistiaeth, cymerwr nodiadau neu gofnodwr, neu dywysydd ar gyfer rhywun â nam ar eu golwg. |
| **Asesiadau** | Gan gynnwys asesiadau allanol, unigol e.e. gan Seicolegydd Addysg, RNIB Cymru, Cyngor Cymru i'r Deillion, Action on Hearing Loss Cymru neu Gyngor Cymru i Bobl Fyddar ac asesiadau a wneir gan y staff Anawsterau Dysgu Penodol priodol yn y coleg. Sylwer bod rhaid i'r asesiad fod yn ychwanegol at y weithdrefn asesu ac ymrestru safonol a gyllidir trwy'r Dyraniad Cyllid Prif Ffrwd Ôl-16.<br><br>Mae costau mewnol, lle gwneir asesiadau gan staff y SAB, ar gyfer trefniadau mynediad at arholiadau yn gymwys dan y canllawiau hyn. Fodd bynnag, nid yw unrhyw gostau allanol yn gymwys. |

**Prynu offer/meddalwedd arbenigol**

26. Gellir defnyddio Cyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol – Elfen 3 (Atodol) i brynu meddalwedd neu offer arbenigol; fodd bynnag, ni ddylid ystyried mai dyma brif ffynhonnell y cyllid ar gyfer offer i ddysgwyr ag ADY. Gall yr offer hwn gynnwys:
    - offer arbenigol ar gyfer nam ar y golwg;
    - troshaenau;
    - meddalwedd testun i leferydd/lleferydd i destun;
    - addasiadau TG;
    - meddalwedd arbenigol a thrwyddedau cysylltiedig;
    - caledwedd TG arbenigol; ac
    - offer clywed arbenigol.

27. Ni ellir defnyddio'r cyllid ar gyfer uwchraddiadau i feddalwedd cyffredinol nac i brynu meddalwedd sydd ar gael ar bob gliniadur, llechen a chyfrifiadur personol yn y SAB. Ni ellir ei ddefnyddio ar gyfer meddalwedd cwrs-benodol y byddai ei angen ar bob dysgwr ar y cwrs pa un a oes ganddynt ADY ai peidio ychwaith.

28. Dylid defnyddio Cyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol – Elfen 3 (Atodol) dim ond ar gyfer meddalwedd ac offer arbenigol a adnabuwyd fel rhai sy'n ofynnol ar gyfer dysgwr unigol.

29. Gall sefydliadau ddefnyddio Cyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol – Elfen 3 (Atodol) i lesio offer arbenigol os yw'n ofynnol am gyfnod byr.

30. Lle mae offer yn cael ei brynu gan ddefnyddio arian Medr yn unig, bydd yr eitem yn cael ei hystyried yn adnodd cenedlaethol pan fo'r dysgwr y'i prynwyd ar eu cyfer wedi gadael y sefydliad. O dan yr amgylchiadau hyn gellir trosglwyddo'r eitem i sefydliad arall i gael ei defnyddio gan ddysgwr arall.

31. Argymhellir bod y sefydliad yn cynnwys unrhyw eitemau o offer a brynwyd â Chyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol – Elfen 3 (Atodol) yn eu hyswiriant.

32. Pan fo offer a brynwyd â chyllid CDY yn mynd o arfer, gall y sefydliad waredu'r offer yn unol â'i weithdrefnau arferol ar gyfer gwaredu offer sydd wedi mynd o arfer ar yr amod y cynhelir trywydd archwilio eglur. Dylai unrhyw enillion o werthu'r eitemau hyn gael eu defnyddio tuag at brynu offer newydd sy'n gymwys dan amodau'r canllawiau hyn. Rhaid i sefydliadau gynnwys yr enillion hyn yn eu cysoniad diwedd blwyddyn.

## Gweithgaredd anghymwys

33. Ni ellir defnyddio Cyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol – Elfen 3 (Atodol) ar gyfer Cymorth Sgiliau Sylfaenol.

34. Ni ellir defnyddio Cyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol – Elfen 3 (Atodol) ar gyfer cymorth dysgu galw-heibio neu gymorth y tu allan i'r dosbarth sydd ar gael i'r holl ddysgwyr pa un a oes ganddynt ADY ai peidio.

35. Ni ellir defnyddio Cyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol – Elfen 3 (Atodol) ar gyfer darpariaeth Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL).

36. Ni ellir defnyddio Cyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol – Elfen 3 (Atodol) i dalu cyflogau staff addysgu craidd neu aelodau eraill o staff allweddol (megis technegwyr neu hyfforddwyr/dangoswyr) sy'n rhan o ddarparu rhaglenni. Ni ddylid ei ddefnyddio ychwaith i dalu costau cyflogau uwch reolwyr a rheolwyr canol a all fod â pheth cyfrifoldeb am ADY fel rhan o rôl swydd ehangach.

37. Ni ellir defnyddio Cyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol – Elfen 3 (Atodol) i roi cymorth ariannol neu gymorth gyda phrynu offer cwrs-benodol i ddysgwyr.

38. Nid yw cymorth technegol yn cynnwys llungopïo, llyfrau, argraffyddion, meddalwedd cyffredinol, gwariant cyfalaf ar adeiladau megis lifftiau, nac eitemau a fydd yn dod yn eiddo i ddysgwyr yn bersonol.

## Gofynion o ran tystiolaeth

39. Ar gyfer pob dysgwr sy'n cael Cyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol – Elfen 3 (Atodol), dylai'r Sefydliad gytuno ar y cymorth gyda'r dysgwr a chofnodi'r canlyniad yn eu Cynllun Dysgu Unigol (CDU), gan gadw tystiolaeth o'r asesiad o anghenion, a all fod yn electronig neu ar bapur. Dylai'r sefydliad roi cymorth i ddiwallu anghenion dynodedig y dysgwr ac adolygu'r cynnydd ac anghenion parhaus yn rheolaidd fel y bo'n briodol.

40. Lle y bo'n briodol, dylai fod gan ddysgwyr dystiolaeth o asesiad diagnostig cofnodedig[2] yn eu CDU, ynghyd ag adnabod anghenion cymorth unigol, a'r rhaglen ddysgu.

41. Lle y bo'n briodol, dylai'r dysgwr, a/neu eiriolwr y dysgwr, gadarnhau bod asesiad diagnostig wedi cael ei gynnal a chytuno â'r ddarpariaeth a awgrymir. Dylid cofnodi'r nodweddion hyn yn CDU pob dysgwr.

42. Lle mae Medr yn cyfrannu at gostau cymorth penodol, boed yn ddynol neu'n dechnegol, neu at greu amgylchedd dysgu priodol, bydd hyn yn gysylltiedig â dysgwyr unigol a dylai fod wedi'i gofnodi ar y CDU. Bydd yr agweddau hyn ar y CDU yn cael eu harchwilio'n ddetholus.

43. Nid oes angen cyflwyno'r dystiolaeth hon i Medr. Fodd bynnag, fel un o amodau'r cyllid, rhaid cadw'r holl dystiolaeth sy'n cadarnhau gofynion cymorth unigol. Gallai'r dystiolaeth hon gael ei harchwilio ac fe geidw Medr yr hawl i ofyn am y dystiolaeth hon unrhyw bryd.

## Ceisiadau am Gyllid a Thaliadau

44. Os hoffai Sefydliadau ymgeisio am gyllid ar gyfer blwyddyn academaidd bydd angen iddynt gysylltu â Medr trwy BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru a bydd

---

[2] Nid asesiad diagnostig meddygol mo hwn, ond yn hytrach un a ddefnyddir gan y SAB i bennu anghenion dysgwyr a'r DdDY briodol.

system trosglwyddo ffeiliau'n ddiogel yn cael ei sefydlu at ddibenion anfon gwybodaeth bersonol.

45. Dylai ffurflenni cais wedi'u cwblhau (a geir yn **Atodiad A**) gael eu llofnodi a'u cyflwyno i Medr trwy'r system trosglwyddo ffeiliau'n ddiogel yn ddim hwyrach na'r diwrnod gwaith olaf ym mis Medi. Efallai na fydd unrhyw geisiadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried.

46. Bydd cyllid yn cael ei dalu mewn tri rhandaliad tymhorol cyfartal.

47. Rhaid i ddarparwyr gyflwyno ffurflen wirio sy'n cadarnhau presenoldeb dysgwyr bob tymor. Ceir templed ar gyfer ffurflen gwirio dysgwr yn **Atodiadau B-D**. Rhaid cyflwyno ffurflenni erbyn y terfynau amser canlynol:
    a. Y diwrnod gwaith olaf ym mis Ionawr ar gyfer Tymor yr Hydref **Atodiad B**
    b. Y diwrnod gwaith olaf ym mis Ebrill ar gyfer Tymor y Gwanwyn **Atodiad C**
    c. Y diwrnod gwaith olaf ym mis Awst ar gyfer Tymor yr Haf **Atodiad D**. Bydd hwn yn cael ei ddefnyddio fel tystysgrif o wariant fel a restrir isod hefyd.

48. Dylai sefydliadau hysbysu Medr ynghylch dysgwyr sy'n gadael yn gynnar. Rhaid i'r hysbysiad gyrraedd Medr o fewn 10 niwrnod gwaith i ddyddiad gadael y dysgwr. Ceir ffurflen tynnu'n ôl at y diben hwn yn **Atodiad E**. Rhaid i sefydliadau gyflwyno'r adroddiad adolygu terfynol ar gyfer y dysgwr hefyd. Gall methu â hysbysu Medr arwain at adhawliad llawn.

49. Dylai sefydliadau hysbysu Medr cyn gynted â phosibl ynghylch unrhyw amgylchiadau a allai ddylanwadu ar gyllid dysgwyr. Mae gofyn cael cytundeb ymlaen llaw ar gyfer unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar gyllid.

50. Mae'n ofynnol i sefydliadau gwblhau Tystysgrif Flynyddol o Wariant hefyd mewn perthynas ag unrhyw ddyraniad cyllid Elfen 3. Ceir templed ar gyfer y Dystysgrif hon yn **Atodiad D**. Mae wedi'i gynnwys yn y ffurflen gwirio dysgwr ar gyfer Tymor yr Haf.

51. Bydd unrhyw gyllid CDY heb ei wario a adnabuwyd yn y Dystysgrif o Wariant yn cael ei adhawlio'n llawn gan Medr. Rhaid i enillion o werthu offer sydd wedi mynd o arfer gael eu cynnwys yng nghysoniad y sefydliad.

52. Bydd Cyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol – Elfen 3 (Atodol) yn cael ei archwilio gan Medr neu unrhyw swyddog neu asiantaeth arall a benodir gan Medr ac fe all arwain at adhawlio cyllid.

## Manylion cyswllt

53. Ar gyfer unrhyw ymholiadau sy'n ymwneud â chynnwys y Canllawiau hyn, cysylltwch â Medr yn BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru.

## Atodiadau

| Atodiad | Teitl |
|---|---|
| Atodiad A | Ffurflen Gais |
| Atodiad B | Ffurflen Gwirio Dysgwr Tymor yr Hydref |
| Atodiad C | Ffurflen Gwirio Dysgwr Tymor y Gwanwyn |
| Atodiad D | Ffurflen Gwrio Dysgwr Tymor yr Haf a Thystysgrif o Wariant |
| Atodiad E | Ffurflen Tynnu'n Ôl |

## A. Ffurfflen Gais

| Cyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol – Elfen 3 (Atodol)<br>Ffurflen Gais | |
|---|---|
| Sefydliad: | |
| Cyfeiriad y sefydliad: | |
| Enw cyswllt a theitl swydd: | |
| Cyfeiriad e-bost: | |
| Ffôn: | |

### Manylion y Dysgwr

| | | |
|---|---|---|
| Enw llawn: | | |
| Dyddiad geni: | | |
| Rhif Dysgwr Unigryw (os ar gael) | | |
| Cyfeiriad a chod post cartref: | | |
| Ai'r sefydliad yw'r agosaf at gyfeiriad cartref y dysgwr? | Ie ☐ | Nage ☐ |
| Os mai nage yw'r ateb, darparwch resymeg pam fo'r dysgwr yn mynychu darpariaeth yn Lloegr | | |
| Angen/Anghenion Dysgu Ychwanegol: | (a)<br>(b)<br>(c)<br>(d) | |

### Darpariaeth Awdurdod Lleol (i'w gwblhau ar gyfer dysgwyr newydd yn unig)

| | | |
|---|---|---|
| Lleoliad addysg diwethaf a fynychwyd: | | |
| Dyddiadau mynychu: | | |
| A oes gan y dysgwr Gynllun Datblygu Unigol? | Oes ☐ | Nac oes ☐ |
| | Dyddiad yr adolygiad diwethaf: Cliciwch neu tapiwch i roi dyddiad i mewn | |
| Oes gan y dysgwr ddogfen statudol arall? Os oes, pa ddogfen ac ar ba ddyddiad y cafodd ei hadolygu ddiwethaf? | Oes ☐ | Nac oes ☐ |
| | Math o Ddogfen Statudol: | |
| | Dyddiad yr adolygiad diwethaf: Cliciwch neu tapiwch i roi dyddiad i mewn | |

### Addysg flaenorol yn y sefydliad cyfredol (i'w gwblhau ar gyfer dysgwyr sy'n parhau yn unig)

| | |
|---|---|
| Blynyddoedd blaenorol yn y sefydliad: | |
| Cyfeirnod y rhaglen ddysgu flaenorol: | |

**Os mai'r flwyddyn academaidd gyfredol yw'r drydedd flwyddyn astudio ar gyfer y dysgwr rhaid cyflwyno achos busnes ochr yn ochr â'r ffurflen gais hon i gael ei ystyried gan Medr.**

### Rhaglen Astudio Arfaethedig

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod y Rhaglen Ddysgu:** | |
| **Dyddiad dechrau'r rhaglen:** | Cliciwch neu tapiwch i roi dyddiad i mewn. |
| **Dyddiad gorffen disgwyliedig y rhaglen:** | Cliciwch neu tapiwch i roi dyddiad i mewn. |
| **Dyddiad dechrau'r cymorth:** (os yn wahanol i'r uchod) | Cliciwch neu tapiwch i roi dyddiad i mewn. |
| **Dyddiad gorffen disgwyliedig y cymorth:** (os yn wahanol i'r uchod) | Cliciwch neu tapiwch i roi dyddiad i mewn. |

### Costau Cymorth Ychwanegol (Elfen 2 a 3)

Cymorth Dynol

| Math o gymorth | Nifer o oriau yr wythnos* | Hyd y cymorth (mewn wythnosau) | Nifer y dysgwyr sy'n rhannu'r cymorth | Cost y cymorth fesul awr £ | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

*****
*Mewnosodwch nifer yr oriau yn yr ystafell ddosbarth yn unig. Dylid ceisio cyllid ar gyfer amseroedd egwyl/cinio gan asiantaethau allanol lle y bo'n berthnasol.*

Cymorth Technegol Arbenigol

| Math o offer | Gwneuthuriad a model | Cost £ | Gwybodaeth ychwanegol |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Cyfanswm Costau

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm cyllid dynol a thechnegol arbenigol blynyddol:** (Heb Gynnwys Elfen 1) | £ |

### Rhesymeg dros Gyllid Elfen 3

| *Darparwch resymeg sy'n egluro pam fod angen cyllid Elfen 3 ar y dysgwr.* |
|---|
| |

**Diogelu Data**
Bydd y data a gynhwysir yn y cais hwn yn cael ei ddefnyddio gan Medr i oleuo ei benderfyniad ynglŷn â chyllid.

| | | |
|---|---|---|
| Cadarnhewch fod y broses ymgeisio ar gyfer Cyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol – Elfen 3 (Atodol), a'r anghenraid i rannu gwybodaeth am y person ifanc, wedi cael eu trafod gyda'r unigolyn a/neu'r rhiant/gofalwr (lle y bo'n briodol). | Do ☐ | Naddo ☐ |
| Cadarnhewch fod y person ifanc, neu eu rhiant/gofalwr (lle y bo'n briodol), wedi cael copi o Hysbysiad Preifatrwydd y Sefydliad, yn eu hysbysu sut y bydd eu data'n cael ei ddefnyddio a chyda phwy y gellir ei rannu; gan gynnwys Medr. | Do ☐ | Naddo ☐ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnod:** | | **Enw:** | |
| **Dyddiad:** | | **Swydd:** | |

Dychwelwch y ffurflen hon fan bellaf erbyn diwrnod gwaith olaf mis Medi trwy system Medr ar gyfer trosglwyddo ffeiliau'n ddiogel. Efallai na fydd unrhyw geisiadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried. Os oes arnoch angen unrhyw gymorth i gael mynediad at y system trosglwyddo ffeiliau cysylltwch â BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru.

## B. Ffurflen Gwirio Dysgwr Tymor yr Hydref

| Cyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol – Elfen 3 (Atodol)<br>Ffurflen Gwirio Dysgwr Tymor yr Hydref – [mewnosoder y flwyddyn academaidd] | |
|---|---|
| Sefydliad: | |
| Cyfeiriad y sefydliad: | |
| Enw cyswllt a theitl swydd: | |
| Cyfeiriad e-bost: | |
| Ffôn: | |

Dychwelwch y ffurflen hon fan bellaf erbyn diwrnod gwaith olaf mis Ionawr trwy system Medr ar gyfer trosglwyddo ffeiliau'n ddiogel. Os oes arnoch angen unrhyw gymorth i gael mynediad at y system trosglwyddo ffeiliau cysylltwch â BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru.

| Enw'r dysgwr | Cyfanswm dyfarniad ar gyfer y flwyddyn academaidd | Taliad tymor yr hydref | Dyddiad talu disgwyliedig |
|---|---|---|---|
| [Mewnosoder enw'r dysgwr] | £[Cyfanswm dyfarniad] | £[Rhandaliad Tymor yr Hydref] | Canol Mis Chwefror |
| [Mewnosoder enw'r dysgwr] | £[Cyfanswm dyfarniad] | £[Rhandaliad Tymor yr Hydref] | |
| [Mewnosoder enw'r dysgwr] | £[Cyfanswm dyfarniad] | £[Rhandaliad Tymor yr Hydref] | |
| [Mewnosoder enw'r dysgwr] | £[Cyfanswm dyfarniad] | £[Rhandaliad Tymor yr Hydref] | |
| **Cyfanswm** | **£** | **£** | |

Yr wyf yn cadarnhau bod yr wybodaeth a ddangosir uchod ar gyfer y dysgwyr a enwir yn gywir.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnod** | | **Enw:** | |
| **Dyddiad:** | | **Swydd:** | |

Medr
Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

## C. Ffurflen Gwirio Dysgwr Tymor y Gwanwyn

| **Cyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol – Elfen 3 (Atodol)<br>Ffurflen Gwirio Dysgwr Tymor y Gwanwyn – [Mewnosoder y flwyddyn academaidd]** | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | |
| **Cyfeiriad y sefydliad:** | |
| **Enw cyswllt a theitl swydd:** | |
| **Cyfeiriad e-bost:** | |
| **Ffôn:** | |

Dychwelwch y ffurflen hon fan bellaf erbyn diwrnod gwaith olaf mis Ebrill trwy system Medr ar gyfer trosglwyddo ffeiliau'n ddiogel. Os oes arnoch angen unrhyw gymorth i gael mynediad at y system trosglwyddo ffeiliau cysylltwch â BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru.

| Enw'r dysgwr | Cyfanswm dyfarniad ar gyfer y flwyddyn academaidd | Taliad tymor y gwanwyn | Dyddiad talu disgwyliedig |
|---|---|---|---|
| [Mewnosoder enw'r dysgwr] | £[Cyfanswm dyfarniad] | £[Rhandaliad Tymor y Gwanwyn] | Canol Mis Mai |
| [Mewnosoder enw'r dysgwr] | £[Cyfanswm dyfarniad] | £[Rhandaliad Tymor y Gwanwyn] | |
| [Mewnosoder enw'r dysgwr] | £[Cyfanswm dyfarniad] | £[Rhandaliad Tymor y Gwanwyn] | |
| [Mewnosoder enw'r dysgwr] | £[Cyfanswm dyfarniad] | £[Rhandaliad Tymor y Gwanwyn] | |
| **Cyfanswm** | **£[Cyfanswm]** | **£[Cyfanswm]** | |

Yr wyf yn cadarnhau bod yr wybodaeth a ddangosir uchod ar gyfer y dysgwyr a enwir yn gywir.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnod:** | | **Enw:** | |
| **Dyddiad:** | | **Swydd:** | |

## D. Ffurflen Gwirio Dysgwyr Tymor yr Haf a Thystysgrif o Wariant

| **Cyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol – Elfen 3 (Atodol)<br>Ffurflen Gwirio Dysgwr Tymor yr Haf a Thystysgrif o Wariant – [Mewnosoder y flwyddyn academaidd]** | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | |
| **Cyfeiriad y sefydliad:** | |
| **Enw cyswllt a theitl swydd:** | |
| **Cyfeiriad e-bost:** | |
| **Ffôn:** | |

Dychwelwch y ffurflen hon fan bellaf erbyn diwrnod gwaith olaf mis Awst trwy system Medr ar gyfer trosglwyddo ffeiliau'n ddiogel. Os oes arnoch angen unrhyw gymorth i gael mynediad at y system trosglwyddo ffeiliau cysylltwch â BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru.

| Enw'r dysgwr | Cyfanswm dyfarniad ar gyfer y flwyddyn academaidd | Cyfanswm gwariant gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn academaidd | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| [Mewnosoder enw'r dysgwr] | £[Cyfanswm dyfarniad] | £[Cyfanswm gwariant gwirioneddol] | £[Gwahaniaeth] |
| [Mewnosoder enw'r dysgwr] | £[ Cyfanswm dyfarniad] | £[Cyfanswm Gwariant gwirioneddol] | £[Gwahaniaeth] |
| [Mewnosoder enw'r dysgwr] | £[ Cyfanswm dyfarniad] | £[Cyfanswm Gwariant gwirioneddol] | £[Gwahaniaeth] |
| [Mewnosoder enw'r dysgwr] | £[ Cyfanswm dyfarniad] | £[Cyfanswm gwariant gwirioneddol] | £[Gwahaniaeth] |
| **Cyfanswm** | **£[Cyfanswm]** | **£[Cyfanswm]** | **£[Gwahaniaeth]** |

Dylai unrhyw arian sy'n dal yn ddyledus i'r sefydliad gael ei dalu erbyn Canol Mis Medi.

1) Yr wyf yn ardystio bod yr arian wedi cael ei wario yn unol â Chyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol – Elfen 3 (Atodol) Medr
2) Yr wyf yn ardystio bod gweithdrefnau tendro arferol wedi cael eu cymhwyso ar gyfer offer a brynwyd gan ddefnyddio Cyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol – Elfen 3 (Atodol)
3) Yr wyf yn ardystio bod yr wybodaeth yn y Dystysgrif o Wariant hon yn nodi sut y gwariodd y sefydliad ei Gyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol – Elfen 3 (Atodol) a'i bod yn adnabod lefel yr arian heb ei wario i'w adhawlio gan Medr.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnod:** | | **Enw:** | |
| **Dyddiad:** | | **Swydd:** | |

## E. Hysbysiad Bod Dysgwr Wedi Tynnu'n Ôl

| Cyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol – Elfen 3 (Atodol)<br>Hysbysiad Bod Dysgwr Wedi Tynnu'n Ôl – [Mewnosoder y flwyddyn academaidd] | |
|---|---|
| **Sefydliad:** | |
| **Cyfeiriad y sefydliad:** | |
| **Enw cyswllt a theitl swydd:** | |
| **Cyfeiriad e-bost:** | |
| **Ffôn:** | |

Dychwelwch y ffurflen hon fan bellaf o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl ymadawiad y dysgwr ynghyd ag adolygiad terfynol ar gyfer y dysgwr trwy system Medr ar gyfer trosglwyddo ffeiliau'n ddiogel. Os oes arnoch angen unrhyw gymorth i gael mynediad at y system trosglwyddo ffeiliau cysylltwch â BuddsoddiadaMonitro@medr.cymru.

| | |
|---|---|
| **Enw'r dysgwr:** | |
| **Dyddiad geni:** | |
| **Rhaglen ddysgu:** | |

| **Darparwch fanylion y rheswm dros dynnu'n ôl**<br>*Gan gynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, er enghraifft dyddiadau, digwyddiadau, camau gweithredu a gymerwyd* |
|---|
| |

| **Os yw trydydd parti wedi bod yn gysylltiedig, darparwch ragor o fanylion** |
|---|
| |

### Datganiad

1) Bydd Medr yn rhoi'r gorau i dalu os yw dysgwr yn methu â dychwelyd i'r SAB neu os yw'r SAB yn gofyn iddynt adael.
2) Os yw dysgwr yn gadael y SAB yn yr hanner tymor cyntaf, gall Medr dalu hanner y costau cymorth y cytunwyd arnynt ar gyfer y tymor hwnnw mewn perthynas â'r dysgwr lle sicrhawyd cymorth.
3) Os yw dysgwr yn gadael yn ail hanner y tymor, gall Medr dalu'r costau llawn y cytunwyd arnynt ar gyfer y tymor mewn perthynas â'r dysgwr lle sicrhawyd cymorth.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnod:** | | **Enw:** | |
| **Dyddiad:** | | **Swydd:** | |

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government